OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3364

# Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) 2005

## RHAN 5

Apeliadau Treth Cyngor

**Penderfynu drwy sylwadau ysgrifenedig**

**30.**—(1) Gellir penderfynu ar apêl ar sail sylwadau ysgrifenedig os yw pob parti wedi cytuno i hynny'n ysgrifenedig.

(2) Lle bo pob parti wedi rhoi cytundeb fel y nodir ym mharagraff (1), rhaid i'r Clerc gyflwyno hysbysiad i'r partïon yn unol â hynny, ac, o fewn pedair wythnos o gyflwyno hysbysiad o'r fath i barti, caiff pob parti gyflwyno i'r Clerc hysbysiad yn datgan—

(a) y rhesymau, neu'r rhesymau pellach am yr anghytundeb sydd wedi achosi'r apêl; neu

(b) nad yw'r parti hwnnw'n bwriadu gwneud sylwadau pellach.

(3) Rhaid i gopi o unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd yn unol â pharagraff (2) gael ei gyflwyno i'r Clerc ac i'r parti neu'r partïon eraill i'r apêl, a rhaid anfon gydag ef ddatganiad am effaith paragraffau (4) a (5).

(4) Caiff unrhyw barti y cyflwynir hysbysiad iddo o dan baragraff (3), o fewn pedair wythnos i'r cyflwyno hwnnw, gyflwyno i'r Clerc hysbysiad pellach yn datgan ateb y parti hwnnw i ddatganiad y parti arall, neu nad yw'r parti hwnnw'n bwriadu gwneud sylwadau pellach, yn ôl y digwydd; a rhaid i'r Clerc gyflwyno copi o unrhyw hysbysiad pellach o'r fath i'r parti neu'r partïon eraill.

(5) Ar derfyn pedair wythnos gan ddechrau o ddiwedd y cyfnod o bedair wythnos a grybwyllir ym mharagraff (4), rhaid i'r Clerc gyflwyno copïau o—

(a) unrhyw wybodaeth a drosglwyddwyd i'r Clerc dan y Rheoliadau hyn, a

(b) unrhyw hysbysiad o dan baragraff (2) neu (4),

i Dribiwnlys a gyfansoddwyd fel y darperir yn rheoliad 34.

(6) Caiff y Tribiwnlys y cyfeirir apêl iddo fel y darperir ym mharagraff (5), os yr ystyria'n briodol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti ddarparu'n ysgrifenedig wybodaeth bellach am y seiliau y dibynnir arnynt ac am unrhyw ffeithiau neu haeriadau perthnasol; neu

(b) orchymyn y dylid penderfynu'r apêl ar sail gwrandawiad.

(7) Lle bo Tribiwnlys yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw barti ddarparu manylion o dan baragraff (6)(a), rhaid i'r Clerc gyflwyno copi o'r manylion i bob parti arall, a chaiff pob parti o'r fath o fewn pedair wythnos i'r cyflwyno, gyflwyno i'r Clerc unrhyw sylwadau pellach y dymuna'r parti hwnnw eu gwneud mewn ymateb.